CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 25 Mehefin, 2018 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mrs S Edwards, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mrs C A Hulme, (Benllech B), Mr D Humphreys, (Benllech B), Mr G Owen, (Llanbedrgoch), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mr D W Roberts, (Brynteg), Mr I Williams, (Benllech B).

24 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y canlynol :- Mr J Cotterell, (Benllech A).

25 DATGANIADAU O DDIDDORDEB.

Derbyniwyd datganiadau o Ddiddordeb gan y canlynol :- Mrs Sioned Edwards (Benllech B), Mr Graham Harker-Roberts, (Brynteg), Mr Dafydd Humphreys, (Benllech B), Mr Gareth Owen, (Llanbedrgoch).

26 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 29ain o Fai 2018.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD.

27 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

28 CWMNI TREH – TOILEDAU CYHOEDDUS BENLLECH.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - llythyr gan gwmni cyfreithwyr TREH, Caergybi yn egluro'r oedi ynglyn a chwblhau prydlesi'r cyfleusterau cyhoeddus ym Menllech.

29 CAE CHWARAE CAER BERLLAN.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - ebyst gan y merched sydd yn dylunio a phaentio murlun yng Nghaer Berllan fel rhan o'i cwrs coleg yn egluro swm a chynnwys y gwariant gyda rhodd ariannol o'r Cyngor Cymuned.

TALIADAU A CHYFRIFON

30 BILIAU.

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
G E Pritchard	(gweler eglurhad isod) *	£1991-61
Photostatic	Llungopio	£13-44
ASL	Llungopio	£35-54
Un Llais Cymru	Hyfforddiant	£40-00
Scottish Power	Trydan	£28-34
G E Pritchard	Cyflog (graddfa newydd)	£1030-40
Sharon Dodd	Paent ayb Caer Berllan	£250-00

* Trafeilio, stampiau a hurio stafell £351-61 - Liverpool Daily Post
Hysbyseb Swydd £1400 – Focus Removals, symud swyddfa £240.

31 CYFRIFON.

Cyflwynwyd – cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan gynllun dirprwyo cyfredol y Cyngor) ym Mai 2018.

PENDERFYNWYD – i nodi'r cyfrif a chytuno'r taliadau.

32 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o 1 Ebrill 2018 i ddiwedd Mai 2018.

PENDERFYNWYD – i nodi a chytuno'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

33 UNED POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD GWYNEDD A MON.

Derbyniwyd Canllawiau Cynlluniau Atodol Drafft i bwrpas ymgynghoriad gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y cyd Gwynedd a Mon. Roedd rhain yn canolbwyntio ar "Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid" a "Cymysgedd Tai".
Daeth y dogfennau i law ddiwedd Mai ac roedd angen ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn y 5 Gorffennaf 2018 fan bellaf.

PENDERFYNWYD – gan fod y dogfennau yn drwchus ac un ohonynt "Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid" o bwysigrwydd mawr o fewn dalgylch y Cyngor, ofyn am estyniad amser i ddiwedd Gorffennaf i wneud sylwadau.

34 CWMNI TREH – LES MAN CHWARAE CAER BERLLAN.

Derbyniwyd llythyrau gan gyfreithwyr y Cyngor Cymuned yn gofyn am gadarnhad a chofnod swyddogol gan y Cyngor Cymuned ynglyn a'r canlynol wrth baratoi prydles newydd i faes chwarae Caer Berllan :-

1. Mae Cyngor Sir Ynys Mon yn cyfeirio at safle Caer Berllan fel "land adjacent to Hafod, Amlwch Road, Benllech". Yn ogystal pan brynwyd y tir gan Gyngor Sir Gwynedd yn 1972 roedd yn cael ei ystyried fel safle ar gyfer Llyfrgell newydd. Ni symudwyd ymlaen gyda'r bwriad ac mae'r Cyngor Sir yn ystyried mai dyma sut cododd yr anghysondeb. Mae'r Cyngor Sir wedi gwneud cais i'r Gofrestrfa Tir i newid disgrifiad yr eiddo i adlewyrchu'r disgrifiad cywir.

2. Gofynnir am gadarnhad nad oes unrhyw gyfamod yn y trawsgludiad cyntaf neu yr ail drawsgludiad neu y ddau drawsgludiad yn peri unrhyw broblem i'r Cyngor Cymuned. Mae'r trawsgludiad cyntaf yn cyfeirio at adeiladu ar y tir perthnasol a'r ail drawsgludiad yn cyfeirio at "os oes unrhyw ehangu i'r maes parcio ar y tir fod hawl i aelodau Capel Methodist Benllech ddefnyddio y maes parcio yn ei gyflawndwer".

PENDERFYNWYD - cytunwyd gyda'r camau bwriedig i'r brydles newydd.

35 SEFYLLFA TRAFFIG YN SGWAR BENLLECH.

Estynwyd croeso i Reolwr Siop Tesco i'r cyfarfod i drafod sefyllfa ddyrus llif traffig yn Sgwar Benllech. Cafwyd amryw esiampl o dagfeydd a man ddamweiniau yn digwydd. Eglurodd y Rheolwr ei fod yn disgwyl Rheolwr Rhanbarthol Risg i ymweld ac estynwyd gwadd i'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Sir i fod yn bresennol yn y cyfarfod safle.

Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r llythyr anfonwyd at Adran Briffyrdd, Cyngor Sir Ynys Mon yn dilyn cyfarfod mis Mai a phenderfynwyd anfon llythyr arall atynt yn crybwyll y cyfarfod oedd yn cael ei drefnu gan Tesco a gofyn am gynrychiolaeth ganddynt.

CYNLLUNIO

36 CEISIADAU

PENDERFYNWYD – ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn :-

1. Caniatau :

30C827	Sibrwd y Ffair, Tynygongl.

2. Gwrthod :

30C225K/EC	Treetops Country Club, Tynygongl.- gwrthodwyd y cais am y rhesymau adroddwyd yn ymateb y Cyngor i'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (anfonwyd copi i'r Adran Cynllunio 28 Chwefror 2018). Yn ychwanegol teimlad yr aelodau oedd fod POLISI TWR 3 Safleoedd Carafanau Sefydlog a Siale A Llety Gwersylla Amgen Parhaol o fewn yr Ymgynghoriad Drafft presenol yn berthnasol iawn i'r cais hwn ac er nad yn statudol ar hyn o bryd, dylai ysbryd neges yr adran gael ei wireddu.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-30 yr hwyr.